Cod Ymddygiad Diogelu–
Agor y Llyfr (Cymru a Lloegr)

Disgwylir i storïwyr sy'n gwirfoddoli gadw at y Cod Ymddygiad hwn.

Mae Cymdeithas y Beibl yn ei gwneud yn ofynnol i bob eglwys sicrhau fod pob un o'i Storïwyr wedi eu harchwilio'n briodol a'u bod yn addas ar gyfer gwaith AyLl cyn cychwyn ar eu rôl.

Argymhellir y dylai Storïwyr dderbyn gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)[1] clir yn unol â chanllawiau cyfredol y DBS cyn mynd i unrhyw ysgol fel rhan o' u gwaith fel Storïwr Agor y Llyfr (AyLl).

I bwrpas y cod hwn mae 'gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd clir' yn golygu fod canlyniad y gwiriad Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn peidio â datgelu gwybodaeth a fyddai, ym marn yr eglwys sy'n cynnal yr archwiliad, yn gwneud yr unigolyn yn anaddas ar gyfer rôl y Storïwr.

Ni ddylai'r Storïwr unigol gael ei adael gyda phlant ar ei ben ei hun. Dylai staff yr ysgol fod yn bresennol bob amser ym mhob cynulliad/ addoli ar y cyd.

Ym mhob ysgol gynradd bydd unigolyn, yn aml y pennaeth, yn gyfrifol am ddiogelwch yn yr ysgol. Cyfeirir atynt fel Arweinydd Diogelu Dynodedig (DSL) yn Lloegr neu Uwch Swyddog Dynodedig yng Nghymru.

Dylai pob Storïwr wybod pwy yw'r unigolyn hwn. Dylai Arweinwyr Tîm AyLl gael gwybod gan yr ysgol beth yw Polisi Diogelu a'i gweithdrefnau diweddaraf a rhannu'r wybodaeth gyda'u Storïwyr. Dylai'r diweddariad gynnwys:

- Sut i weithredu pan fyddant yn adeilad yr ysgol fel tîm adrodd stori e.e. y drefn cytunedig ar sut i gasglu ac ymarfer y plant i fod yn rhan o'r cynulliad/ addoli ar y cyd.
- Yr weithdrefn i roi gwybod am unrhyw bryderon am blant unigol

[1] Yng Nghymru a Lloegr. Mae Storïwyr ar Ynys Manaw ac Ynysoedd y Sianel yn cael eu clirio gan eu hawdurdod archwilio diogelwch lleol.

- Yr weithdrefn i roi gwybod am unrhyw ymddygiad anaddas gan Storïwyr
- Yr weithdrefn i roi gwybod am unrhyw ddigwyddiad sy'n digwydd y tu allan i adeilad yr ysgol
- Ac unrhyw beth arall mae DSL/DSP yr ysgol yn teimlo ei fod yn briodol i ddiogelu pawb.

Bydd AyLl yn gwneud popeth y gall ei wneud i annog arferion ymddygiad da o gwmpas plant, a thrwy ein gweithdai cyfathrebu ysgrifenedig, hyfforddi a gweithdai dilynol

Bydd rhai esgobaethau, sefydliadau eglwysig a Gwasanaethau Cymdeithasol yn trefnu cyrsiau Diogelu neu dyddiau hyfforddi. Gall ysgolion hefyd drefnu rhain ar gyfer eu gwirfoddolwyr. Rydym yn annog pob Storïwr i holi am y rhain ac i fynychu pryd bynnag mae'n bosibl. Mae timau newydd yn cael eu hannog i gymryd hyfforddiant cychwynnol naill ai drwy hyfforddwyr cydnabyddedig neu gan ddefnyddio DVD hyfforddi. Dylai Arweinwyr Timau Newydd gysylltu ag Agor y Llyfr i gael cymorth a chyngor. Bydd hyfforddiant tîm sy'n bod eisoes yn cynnwys Diogelu ac anogir timau sefydledig i fynychu hyfforddiant yn flynyddol. Rydym hefyd yn argymell fod Storïwyr yn mynychu hyfforddiant Diogelu eu heglwys/enwad a sesiwn gyda DSL/DSP yr ysgol.

Mae pob un sy'n gweithio gyda phlant neu sydd â chyswllt arwyddocaol gyda hwy ar ran yr eglwys mewn safle o ymddiriedaeth. Gwelir hwy fel patrymau ymddwyn gan y plant, y maent mewn cysylltiad â hwy, gan gynnwys pan 'na fyddant ar ddyletswydd'. Dylai pob Storïwr, felly, ymddwyn yn unol â disgwyliadau rhesymol rhywun sy'n cynrychioli'r eglwys.

Canllawiau i storïwyr:

1. Trin pob plentyn a pherson ifanc gyda pharch ac urddas.
2. Rhannu eich pryderon bob amser am blentyn gyda DSL/DSP yr ysgol. Rhannwch hefyd bob amser eich pryder am ymddygiad storïwr arall gyda Swyddog Diogelu perthnasol yr Eglwys/Enwad a rhoi gwybod i Reolwr Adnoddau Dynol Cymdeithas y Beibl.
3. Ceisiwch leihau'r sefyllfaoedd ble gallech fod ar eich pen eich hun gyda phlentyn unigol yn yr ysgol. Sicrhewch fod Storïwr arall neu aelod o staff gyda chi bob amser. Er enghraifft:
    - Peidiwch â chuddio o'r golwg ar eich pen eich hun gyda phlentyn hyd yn oed i wneud ymddangosiad annisgwyl mewn stori.
    - Peidiwch â chasglu plentyn unigol ar eich pen eich hun o ystafell ddosbarth i ddod ag ef/ hi i'r neuadd ymgynnull.
    - Peidiwch â gwisgo plant mewn ystafell ar wahân heb fod oedolyn arall yn bresennol.

6 Mai 2016

- Osgowch gyfarfod damweiniol â phlentyn yn y coridor drwy aros gyda gweddill y tîm pan fyddwch yn symud o gwmpas yr ysgol.
- Defnyddiwch doiledau'r staff bob amser ac nid rhai'r plant.

4. Sicrhewch fod eich iaith, tôn eich llais ac iaith eich corff bob amser yn foneddigaidd.
5. Os yw unrhyw ddigwyddiad yn gofyn am gyswllt corfforol, sicrhewch fod y plentyn a'r athrawon neu'r rhieni yn ymwybodol o'i natur o flaen llaw.
6. Mynnwch ganiatâd ar gyfer unrhyw ffotograffau/ fideos a dynnir neu a ddangosir.

Rydym yn ymwybodol fod plant weithiau'n chwilio am Storïwyr AyLl y tu allan i adeiladau'r ysgol. Cofiwch, nid eich lle chi yw ffurfio perthynas unigol â phlentyn. Heb fod yn ddigywilydd neu'n codi ofn, osgowch sgyrsiau hir yn enwedig os nad oes oedolyn arall yn bresennol. Pe bai gennych bryderon am fater o ddiogelu plentyn, rhaid i chi ei gyfeirio at DSL/DSP yr ysgol heb oedi. Os yw hyn yn digwydd y tu allan i oriau'r ysgol cysylltwch â Swyddog Diogelu perthnasol yr Eglwys/ neu'r Enwad yn ddiymdroi. Peidiwch â delio â hyn eich hun.

Lle bynnag mae pryderon yn codi mewn perthynas â diogelwch plentyn neu ymddygiad Storïwr arall dylid datgelu'r pryderon hyn dim ond i gydymffurfio â'r ddeddf berthnasol ac yn unol â pholisïau diogelu'r ysgol berthnasol, yr eglwys berthnasol a Chymdeithas y Beibl. Ni ddylid trafod pryderon o'r fath gydag eraill, gan gynnwys Storïwyr eraill.

Ble mae'n bosibl dylid parchu cyfrinachedd y plentyn, ond mae'n bwysig fod y storïwyr yn gwerthfawrogi na ellir cynnal cyfrinachedd os oes pryderon gwybyddus ynglŷn â diogelwch a lles y plentyn. Ni ddylai pryderon ynglŷn â chyfrinachedd gael eu caniatáu i rwystro rhoi gwybod yn briodol am bryderon ynglŷn â lles plentyn.

6 Mai 2016